Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

14/11/25

Annwyl Rieni,

**PLANT MEWN ANGEN**- Llawer o ddiolch i bawb am gefnogi'r elusen heddiw yn yr ysgol. Braf oedd gweld gymaint o fwrlwm yn yr ysgol- wrth brynu a gwerthu hen deganau a llyfrau. Diwrnod gwerth chweil. Byddwn yn rhannu'r swm a godwyd yn fuan iawn efo chi. Diolch i bawb am eich haelioni.

**PANTOMEIM 'BRENIN MARCH'**- Mae disgyblion Blynyddoedd 1,2,3,4,5,6 yn edrych ymlaen yn arw at y perfformiad yn Theatr y Stiwt, Rhos dydd Llun nesaf. Bydd y plant yn derbyn cinio cynnar cyn gadael. (Pecyn bwyd o'r cartref neu becyn bwyd o gegin yr ysgol). Rydym yn gobeithio cyrraedd nôl i'r ysgol cyn diwedd diwrnod arferol yr ysgol. Diolchwn hefyd i Gyngor Celfyddydau Cymru am y nawdd o £1000 tuag at y costau. Hyn yn cadw'r pris y pen i lawr i deuluoedd.

**Ffotograffau TEMPEST** - Bydd cwmni TEMPEST yn yr ysgol ar ddydd Mercher, Tachwedd 26ain i dynnu lluniau plant fel unigolion a gyda'r rhai hynny sydd â brodyr/chwiorydd. Byddent yn gosod fyny yn y neuadd am 8yb ac yn cychwyn yn brydlon am 8.30yb.

Bydd yn ddiwrnod prysur yn yr ysgol gyda Ffair Nadolig y noson yno hefyd! Byddwn yn trefnu diwrnod di-wisg cyn hynny felly, lle gall blant ddod ag eitemau ar gyfer y ffair. Manylion i ddilyn yn fuan.

**Gŵyl Cerdd Dant- Aberystwyth a'r Fro-** Llongyfarchiadau ANFERTHOL i bawb fu'n cystadlu dydd Sadwrn diwethaf yn yr Ŵyl Cerdd Dant. Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus iawn i'r ysgol.

Daeth Mabon Evans yn gyntaf efo'r Unawd Cerdd Dant ac fe ddaeth y Parti Cerdd Dant yn ail. Daeth y Grŵp Llefaru a'r Grŵp Gwerin hefyd yn drydydd. Diolch i holl gefnogaeth ein rhieni a hefyd i'r staff fuodd yn hyfforddi- Mrs Helen Williams, Miss Elin Parry a Mrs Elinor Rogers.

Mwynhewch y penwythnos- er gwyntoedd a glaw Storm Claudia sy'n bygwth!

Yn gywir,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
YSGOL PEN BARRAS

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*14/11/25*

***Dear Parents,***

***CHILDREN IN NEED APPEAL****– Many thanks to everyone who supported the charity today at school. It was lovely to see so much excitement in school – buying and selling old toys and books. A great day. We'll share the amount raised with you very soon. Thank you all for your generosity.*

***PANTOMIME 'BRENIN MARCH'*** *– Pupils in Years 1, 2, 3, 4, 5, and 6 are very much looking forward to the performance at Theatr y Stiwt, Rhos next Monday. The children will have an early lunch before leaving (a packed lunch from home or a packed lunch from the school kitchen). We expect to return to school before the end of the normal school day. We also thank the Arts Council of Wales for the £1000 sponsorship towards the costs. This helps keep the per-child price down for families.*

***TEMPEST Photographs*** *– TEMPEST photography company will be at school on* **Wednesday, November 26th** *to take individual photos of children and also with siblings. They will set up in the hall at 8am and start promptly at 8:30am.*

*It will be a busy day at school with the Christmas Fair that evening too! We'll arrange a non-uniform day beforehand so children can bring items for the fair. Details to follow soon.*

***Cerdd Dant Festival – Aberystwyth*** *– HUGE congratulations to everyone who competed last Saturday in the Cerdd Dant Festival on behalf of Ysgol Pen Barras. It was a very successful day for the school.*

*Mabon Evans came first in the Cerdd Dant Solo, and the Cerdd Dant Party came second in their category. The Recitation Group and the Folk Group also came third. Thanks to parents for your fantastic support and also to the staff who prepared the children to compete – Mrs Helen Williams, Miss Elin Parry, and Mrs Elinor Rogers.*

*Enjoy the weekend – despite the immnent and forecasted wind and rain of Storm Claudia!*

*Best wishes,*

***Dyfan Phillips***
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*